

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023

Yn Cynghorydd Williams(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Henshaw, Hinchey, Hunt,
Stubbs a/ac Thomson

19 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn.

20 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Henshaw a'r Cynghorydd Williams fuddiant personol gan fod aelodau o'u teulu'n gweithio i'r Cyngor.

21 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023 a 12 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

22 : GWYDNWCH SEFYDLIADOL

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau, yn unol â chyfrifoldeb y Pwyllgor dros graffu ar reoli busnes y Cyngor a'i ddefnydd o adnoddau dynol, fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt roi sicrwydd iddynt eu hunain bod trefniadau ar waith i ystyried trefniadau dros dro sy'n ofynnol i fynd i'r afael â chapasiti uwch reolwyr, yswiriant dros dro, yn enwedig ar gyfer cyfrifoldebau statudol megis swyddogaethau Swyddogion Monitro a Canlyniadau.

Ar gyfer yr eitem hon croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd Chris Lee a Sarah McGill fwy o wybodaeth. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi hyder swyddogion bod dirprwyaethau ffurfiol i gefnogi absenoldeb y Prif Weithredwr yn gweithio'n effeithiol ac yn parhau i gefnogi cyfnod rhyfeddol o sefydlogrwydd gwleidyddol a rheolaethol i'r Cyngor.

Holodd yr Aelodau, wrth hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a oedd unrhyw ddadansoddiad wedi cael ei wneud ynghylch pa mor heriol y byddai recriwtio i'r swydd pe bai'r disgrifiad swydd yn aros yr un peth. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y swydd ddisgrifiad yn aros yr un peth ar wahân i rai diwygiadau a bod rhai safbwyntiau wedi cael eu tynnu o rwydweithiau anffurfiol. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod enw da Cyngor Caerdydd wedi gwella ers 2016 pan benodwyd y Swyddog Monitro blaenorol. Roedd Caerdydd bellach yn cael ei

hystyried yn lle deniadol i weithio ac roedd swyddogion yn hyderus y byddai diddordeb sylweddol yn y swydd.

O ran swydd y Dirprwy Swyddog Monitro, nodwyd y gellid neilltuo'r swydd hon i swyddogion gwahanol a gofynnwyd i Aelodau ystyried y posibilrwydd o gael mwy nag un swydd Dirprwy Swyddog Monitro. Y pwynt allweddol er hynny oedd sicrhau bod y capasiti cyfreithiol yn ei le gyda'r swydd yn adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol.

Holodd yr aelodau a oedd angen ailstrwythuro sefydliadol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, yn erbyn cefndir o bwysau cyllidebol digynsail, bod sefydlogrwydd a gallu'r uwch dîm sy'n cael eu grymuso i gyflawni agenda gweinyddiaethau yn bwysig. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl y bydd y Prif Weithredwr yn myfyrio ar hyn ar ôl dychwelyd.

Mynegodd yr Aelodau'r farn bod y Cyngor, drwy gyfuno gofyniad am arbenigedd cyfreithiol a llywodraethu mewn un swydd, yn chwilio am ystod eang o sgiliau a rhinweddau. Roedd yr Aelodau felly yn falch o glywed y byddai'r Cyngor yn barod i beidio â phenodi pe na bai'r cyfuniad o sgiliau yn denu'r ymgeiswyr talentog cywir. Mynegodd yr aelodau'r farn y dylid ystyried amrywiaeth o opsiynau a dulliau gwahanol i sicrhau'r sgiliau angenrheidiol. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi edrych ar bob opsiwn a'i fod yn fwy na pharod i brofi cynigion gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Trafododd yr Aelodau a allai'r Cyngor fforddio recriwtio i'r swydd wag ar yr un lefel o ystyried yr arwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd setliad y gyllideb yn heriol ar gyfer 2024/25.

Awgrymwyd y byddai peidio â chael y person hwnnw yn y swydd yn costio mwy na'r hyn fyddai'n cael ei arbed trwy israddio'r rôl.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod datblygu cnewyllyn o swyddogion Cyngor Dinas Caerdydd ei hun yn rhywbeth a gafodd ei wneud yn dda yng Nghaerdydd. Roedd y Cyngor yn awyddus i weld aelodau newydd o staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb newydd ac atebolrwydd. O ran cynghorau eraill yng Nghymru, ystyriwyd bod Caerdydd ar flaen y gad o ran datblygu ei dalent. Roedd y Cyngor wedi treulio cryn dipyn o amser yn tyfu ei weithlu ei hun a chefnogi ei staff i ddatblygu. Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at y cynnig o amgylchedd gwaith deniadol i'r rhai sy'n dod o'r tu allan i'r Awdurdod.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad i'r Cyngor yn tynnu sylw at yr angen i ddynodi Swyddog Monitro Dros Dro i gyflawni'r rôl statudol hon am oddeutu 6 mis. O dan ystyriaeth roedd trefniant mewnol, comisiynu adnodd allanol, neu o bosibl ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gydag awdurdod lleol arall yng Nghymru hyd nes bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu newydd yn y swydd.

Mynegodd yr Aelodau bryderon bod Cadeirydd y Cyngor yn dibynnu'n drwm ar y Swyddog Monitro, bod risg na fyddai'r cytundeb CLG ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol dros dro yn gallu darparu digon o gapasiti o gyngor cyfreithiol, ac y gallai fod angen ymestyn y gofyniad am drefniadau dros dro i 12 mis.

Sicrhawyd yr Aelodau gan hyder Swyddogion y gallai'r Cyngor gaffael yr union wasanaethau yr oedd eu hangen arno drwy CLG, byddai hyn yn cynnwys mynychu'r Cyngor a'r Cabinet, ond ni fyddai'n cynnwys rheoli staff cyfreithiol a llywodraethu

presennol. Byddai pob dirprwyaeth yn parhau i fod gyda'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a byddai'r sefydliad yn parhau i gael ei arwain gan aelodau, dan reolaeth broffesiynol.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y byddai cyfweiliadau ymadael yn cael eu cynnal gyda staff cyfreithiol sy'n gadael, gan roi cyfle i ddysgu ar adeg pan oedd recriwtio a chadw staff yn risg allweddol i'r sefydliad.

Ystyriodd yr aelodau y gallai fod yn werth cymharu dulliau cynllunio olyniaeth cynghorau eraill i wella sefydlogrwydd. Nodwyd mai dull cynllunio'r gweithlu y Cyngor oedd tyfu ei arbenigedd ei hun, wedi'i gydbwysu â denu ymgeiswyr allanol hefyd.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

23 : ADRODDIAD MONITRO MIS 4 CYLLIDEB 2023/24,

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis 4 blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu cyn penderfynu ar adroddiad i'r Cabinet ar 21 Medi 2023.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu cwestiynau, eu sylwadau a'u harsylwadau.

Nododd yr Aelodau fod Adroddiad Monitro Mis 4 yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad Cyllideb Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn rhan o drefniadau rheoli fel y gellid cymryd camau cywiro lle bo angen i liniaru risgiau a defnyddiodd meysydd gwasanaeth y wybodaeth i gefnogi eu rheolaeth ariannol yn 2023/24.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad mewn perthynas â sefyllfa'r gyllideb mewn perthynas â Gwasanaethau Plant, a oedd ers blynyddoedd lawer wedi gorwario yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Mynegodd yr Aelodau bryderon, o ystyried y gorwariant cynnar dro ar ôl tro, a oedd y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth hwn yn cael ei gosod yn gywir, a oedd gwersi'n cael eu dysgu o orwariant dro ar ôl tro, a pha ddadansoddiad oedd yn cael ei wneud i sicrhau'r gwerth gorau am arian yn y gwasanaeth hwn.

Rhodddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y gorwariant yn llai na'r un cyfnod yn 2022/23, pan gafwyd sefyllfa gytbwys. Fodd bynnag, wrth archwilio rhai o'r newidiadau mewn gwariant o'i gymharu â'r cyllidebau a roddwyd ar waith gydag effeithlonrwydd roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth mawr yn y meysydd hynny gyda'r hyn a gynlluniwyd.

Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r bylchau yn cael eu llenwi ac os oedd bwllch o'r hyn a ragwelwyd, pa wersi oedd yn cael eu dysgu o'r gwahaniaethau yn 2023/24 o'i gymharu â 202/232 a beth fyddai'r effaith ar y gyllideb y flwyddyn nesaf.

Nododd yr Aelodau fod rheolaeth gynnar a chadarn ar gyllidebau yn 2023/24 yn hanfodol a bod y Cyngor yn cynnal ymarferion modelu manwl y mae llawer ohonynt

yn fisol. Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 3 (tudalen 51) a oedd yn rhoi manylion Cynigion Arbedion Effeithlonrwydd y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2023/24. Nid oedd rhai o'r arbedion wedi cael eu cyflawni, am wahanol resymau, ond roedd bron i 80% wedi cael eu cyflawni. Ni ragwelwyd y byddai'r anwadalrwydd yn cael ei ddileu wrth symud ymlaen er y nodwyd bod cyllidebau wrth gefn yn caniatáu i'r Cyngor gynnal sefydlogrwydd wrth wynebu anwadalrwydd o'r fath.

Gofynnodd yr aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am y llithriad o amgylch yr Arena Dan Do. Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 5 (tudalen 71) a oedd yn cyfeirio at gyllideb o £8.850 miliwn yn 2023/24 i ariannu prif waith adeiladu'r Arena Dan Do. Roedd disgwyl i'r gwaith galluogi ddechrau ar y safle yn gynnar yn 2024, a disgwylir i'r prif waith adeiladu ddechrau tua chwe mis yn ddiweddarach ar ôl llofnodi'r Cytundeb Datblygu ac Ariannu a'i fod wedi dod yn ddiamod. Yn unol â hynny, ni ragwelwyd unrhyw wariant ar brif waith adeiladu felly yn 2023/24 gyda llithriad llawn yn cael ei ragweld i mewn i 2024/25.

Amlygodd yr aelodau y gost gynyddol o fenthycia a gofynasant ar ba bwynt y byddai swyddogion cyllid yn datgan bod dyled yn achos pryder. Eglurodd y swyddogion fod benthycia wedi'i sicrhau ar gyfer y rhaglen gyfalaf gyfan yn hytrach na phrosiectau unigol a chytunwyd arno gan y Cyngor llawn. Nodwyd ym mis 4 bod cost benthycia yn llai na'r disgwyl ar derfyn uchaf o £350 miliwn o fenthycia cyfalaf. Cynigiwyd mwy o wybodaeth i'r Aelodau am fanylion benthycia cyffredinol a ffigurau a awdurdodwyd yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Sylwodd yr Aelodau fod nifer o awdurdodau lleol yn y newyddion ar hyn o bryd oherwydd anawsterau ariannol (Birmingham a Woking) ac yn teimlo y gallai fod gwersi i'w dysgu o'u heriau. Nodwyd nad oedd Cyngor Caerdydd yn cymryd rhan mewn lefelau uchel o fenthycia i greu incwm a'i fod eisoes wedi mynd i'r afael â'r risgiau ariannol yr oedd Birmingham yn eu hwynebu o ran cyflog cyfartal.

Amlygodd yr Aelodau fod awgrym ym mis 4 na fyddai £2m o arbedion arfaethedig 2023/24 yn cael eu cyflawni. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr amseriad a ragwelir o ran arbedion weithiau o fewn rheolaeth y Cyngor, megis trosglwyddo Neuadd Dewi Sant.

Cefnogodd yr aelodau bwysigrwydd pob Cyfarwyddiaeth gan fyfyrir ar yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd a oedd yn atal arbedion rhag cael eu gwireddu. Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd arbedion yn cael eu cyflawni'n gyflym iawn yn gynnar yn y flwyddyn gyllidebol mewn sawl cyfarwyddiaeth ac roedd yn bwysig bod dadansoddiad o'r fath mor gadarn â phosibl. Nododd yr aelodau hefyd mai dim ond un o'r ffactorau a ddefnyddiwyd o ran modelu oedd chwyddiant. Roedd cymhlethdodau o amgylch demograffeg, y cyflog byw gwirioneddol, pob un ohonynt yn newidynnau sylweddol a allai gael effaith fawr.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y cynnydd ar Strategaeth Llety Gwasanaethau Plant wedi bod yn sylweddol. Roedd yr Awdurdod wedi gallu defnyddio eiddo a adeiladwyd ganddynt trwy raglenni adeiladu newydd ac, er ei fod yn cymryd amser a bod rhywfaint o'r ffitio yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, roedd llety presennol y cyngor (eiddo'r gofalwr) wedi cael ei aildefnyddio a byddai parhau fel hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gost yn y dyfodol.

Holodd yr aelodau a oedd y diffyg presennol ar gyfer Neuadd Dewi Sant, Caerdydd yn cynnwys unrhyw golled o ran incwm o gau ar gyfer materion RACC. Ymatebodd swyddogion nad oedd safle mis 4 Neuadd Dewi Sant yn adlewyrchu unrhyw golled incwm posibl oherwydd cau heb ei gynllunio ar gyfer adolygiad o safle'r RAC. Byddai digwyddiadau'n cael eu haildrefnu fel na fyddai unrhyw incwm yn cael ei golli ond pe bai ar gau am amser hir, gallai gael effaith a byddai'n dibynnu ar archwiliad agosach o'r Neuadd.

Nododd yr Aelodau y pryder nad oedd y setliad cyllido gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn debygol o newid yn sylweddol dros 3%, yn wahanol i setliad y flwyddyn flaenorol o 9%, ac y byddai hyn yn cael effaith fawr ar gyllideb y cyngor.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y potensial ar gyfer cynnydd uchel yn y Dreth Gyngor ac felly cawsant sicrwydd o glywed y byddai biliau'r Dreth Gyngor yn cynyddu ond gymaint ag oedd angen iddynt wneud i ddarparu gwasanaethau hanfodol y cyngor, o ystyried y pwysau ariannol oedd ar breswylwyr.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod rheolaeth ddoeth a synhwyrol cyllideb Cyngor Caerdydd. Roedd yr Aelodau'n arbennig o awyddus i ddiolch i swyddogion cyllid, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, am gyfathrebu mor llwyddiannus ag aelodau ar bwnc cymhleth. Nododd yr Aelodau fod y gorwariant o £6.457m ym mis 4 yn welliant ar y sefyllfa ym mis 4 yn 2022/23, ac y disgwylir y byddai cynnydd pellach yn amlwg ym mis 6 2023/24.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

24 : RHAGLEN WAITH 2023/24

Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod rhestr o opsiynau, a geir yn Atodiad 1, wedi cael ei dosbarthu ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor rhwng Medi 2023 a Gorffennaf 2024 yn ystod yr haf. Gwahoddwyd sylwadau ar y blaenoriaethu cychwynnol. Nododd yr Aelodau bod y dull goleuadau traffig cydnabyddedig wedi cael ei ddefnyddio, fel bod eitemau coch yn cael eu rhaglennu, eitemau ambr yn cael eu harchwilio, ac y byddai gwyrdd ond yn cael ei archwilio pe byddai sawl eitem coch ac ambr yn llithro.

Cafwyd ymatebion gan rai o aelodau'r pwyllgor a oedd yn hapus i raddau helaeth gyda'r rhestr a chyda'r blaenoriaethu.

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn rhestr waith ac y byddai angen cadw rhywfaint o hyblygrwydd wrth i Flaengynllun y Cabinet ddatblygu. Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor, yn enwedig y cyfrifoldeb blynyddol dros gynllunio strategol ac ariannol, monitro perfformiad a llywodraethu partneriaeth, yn golygu bod cyfran sylweddol o amser y Pwyllgor eisoes wedi'i ddyrannu.

Gwahoddwyd aelodau i roi eu barn ar yr opsiynau a restrir ac yn Atodiad 1 a gofynnwyd iddynt am eu cytundeb cyffredinol ar flaenoriaethau'r Rhaglen Waith.

Cafwyd trafodaeth ar waith gorchwyl a gorffen. Nodwyd bod ymrwymiad ar ran y Pwyllgor i gyfrannu at grŵp gorchwyl a gorffen cyd-bwyllgor ar y CDLIN oedd ar y gweill. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai lle i grŵp gorchwyl a gorffen arall o fis Ionawr 2024 a restrwyd fel awgrym bod Aelodau'n cwmpasu'r posibilrwydd o weithio ar

recrwtio a chadw staff, o gofio bod cynlluniau cyflawni pob gwasanaeth yn tynnu sylw at recrwtio a bod capacity swyddogion yn her allweddol o'n blaenau.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r gwaith gorchwyl a gorffen hwn hefyd gynnwys gwytnwch sefydliadol a chyfeiriwyd at foderneiddio, digideiddio newid. Nododd yr Aelodau werth edrych ar sefydliadau y tu allan i Gymru fel yn Plymouth, Leeds, Sheffield a Bryste i ganfod sut maent yn rheoli eu cyfarwyddiaethau i liniaru risg a hefyd efallai rhai dinasoedd Ewropeaidd. Er enghraifft, roedd Newcastle wedi rhoi rheoli gwastraff ar gontract allanol a beth oedd canlyniadau hyn.

Amlygwyd ei bod yn bwysig deall bod y pwnc yn torri ar draws yr holl brif gyfarwyddiaethau. Byddai angen cynnal ymarfer cwmpasu priodol a cheisiwyd caniatâd ynghylch pa mor ddefnyddiol fyddai darn o waith yn ymchwilio i'r pwnc. Pe bai meysydd o fewn recrwtio a chadw a ddylai fod yn rhan o'r mecanwaith cwmpasu, byddai angen eu torri i lawr i'r hyn y byddai'r Pwyllgor am ganolbwyntio ei ymdrechion arno.

Cytunodd yr Aelodau i ystyried unrhyw bynciau pellach yr hoffent eu cwmpasu neu eu hychwanegu at y rhestr. Roedd cytundeb bod y rhestr o opsiynau yn Atodiad 1 yn sail i waith y Pwyllgor, er gwaethaf yr adroddiadau cyn penderfyniad pwysig a fyddai'n anochel yn dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

CYTUNWYD: bod

- (1) y rhaglen waith ar gyfer 2023/24 yn cael ei chytuno, gan flaenoriaethu'r gwaith o'r pynciau a restrir yn Atodiad 1 ac mai hon fyddai'r rhaglen waith amlinellol ar gyfer y Pwyllgor, er gwaethaf materion fyddai'n codi trwy gydol y flwyddyn nad oeddent yn hysbys i'r Pwyllgor ar hyn o bryd;
- (2) Mae'r ffaith y byddai'r rhaglen waith yn cael ei diweddarau bob chwarter a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn cael ei nodi

25 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

18 Hydref 2023 am 4.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm